

CYLCHLYTHYR LLANBEDR D.C. NEWSLETTER

Rhifyn/ Issue 11 Rhagfyr / December 2023



Gan y Cadeirydd

Croeso i Gylchlythyr mis Tachwedd Cyngor Cymuned Llanbedr Dyffryn Clwyd, lle gallwch weld be mae'r Cyngor wedi bod yn wneud yn ddiweddar, yn ogystal â darllen newyddion am ddigwyddiadau tymhorol wedi'u trefnu gan y Cyngor.

Edrychwch ar ein cymuned. Weithiau gellid meddwl amdano fel criw o drigolion yn byw eu bywydau o fewn seilwaith sefydlog, digyfnewid o dai, llwybrau a ffyrdd. Ond mewn gwirionedd mae datblygiad strwythurol y gymuned - cyfleoedd i wella, ehangu a chroesawu newydd-ddyfodiaid i gartrefi moethus a thai fforddiadwy - yn cael ei adolygu'n gyson.

Lle mae'r amgylchedd adeiledig yn bod, craidd hyn yw'r CDLI - y Cynllun Datblygu Lleol - sy'n cael ei greu gan Gyngor Sir Ddinbych mewn ymgynghoriad â thrigolion lleol a'r Cyngor Cymuned. Yn y CDLI, mae ardaloedd wedi'u nodi fel rhai addas ar gyfer datblygu tai, sy'n hwyluso'r ffordd i ddatblygwyr wneud cais am ganiatâd cynllunio. (Felly, er enghraifft, y datblygiad newydd wrth yr eglwys a elwir ar hyn o bryd yn "St Peter's View").

Wrth i mi ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r CDLI ei hun yn cael ei adolygu, ac mae aelodau'r Cyngor Cymuned yn awyddus i gyfrannu cymaint ag y gallent. Rydym eisoes wedi mynychu'r sesiwn ymgynghori gychwynnol. Y cam ymgynghori nesaf ar gyfer CDLI Sir

From the Chair

Welcome to this November newsletter, brought to you by Llanbedr Dyffryn Clwyd Community Council. In it you will find details of what the Council has been involved with recently, as well as news of some seasonal events organised by the Community Council.

Take a look around our community. One might sometimes be forgiven for thinking of it as a group of residents going about their lives within a static, unchanging infrastructure - our houses, paths and roads. But in fact the structural development of the community - opportunities to improve, expand and welcome newcomers into both luxury homes and affordable housing - is under constant review.

For the built environment, the core of this is the LDP - the Local Development Plan - created by Denbighshire County Council in consultation with local residents and the Community Council. Within the LDP, areas have been identified as suitable for housing development, easing the way for developers to apply for planning permission. (Thus, for example, the new development by the church currently called "St Peter's View").

At the time of writing, the LDP itself is under review, and members of the Community Council are keen to be as involved as possible and have already attended an initial consultation session. The next consultation stage

Ddinbych fydd yr hyn a elwir yn CDLI Adnau, a gynhelir yn 2024. Bydd hwn yn ymgynghoriad llawn fydd yn para am o leiaf 8 wythnos, gyda rhybudd ymlaen llaw o'r ymgynghoriad i'w roi i bob Cyngor Dinas, Tref a Chymuned.

Mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus i weld y gymuned yn datblygu mewn modd fydd yn diogelu harddwch ein hamgylchedd ac a fydd yn bwyllog a phriodol ar yr un pryd. Rydym am i'n seilwaith adeiledig fod yn endid byw, organig ac rydym bob amser yn awyddus i weld wynebau newydd (yn enwedig teuluoedd ifanc) yn mwynhau buddion ein hardal. Rydym yn gwneud hyn drwy chwarae rhan mor llawn â phosibl mewn ymgynghoriadau, a thrwy gyhoeddi'r hyn rydym yn ei drafod (yn Gymraeg ac yn Saesneg) yn ein cofnodion, ar wefan y Cyngor Cymuned. Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd y Cyngor Cymuned, a gynhelir ar ddydd Llun cyntaf pob mis (oni bai am fis Awst). Gallwch hefyd ymuno â'r cyfarfodydd ar-lein (gyda sain a/neu fideo). Mae manylion sut i wneud hyn ar y wefan ac ar yr agenda bob mis, ac fe'u gwelir ar hysbysfwrdd Neuadd y Pentref tuag wythnos cyn pob cyfarfod.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth hefyd drwy ymweld â 'Cynllunio' ar www.sirddinbych.gov.uk.

Ac yn olaf, carwn ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd ffrwythlon a llewyrchus i'n holl ddarllenwyr!

Tim Baker, Cadeirydd

for Denbighshire's LDP will be what is known as the Deposit LDP, held in 2024 and this will be a full consultation and will last for at least 8 weeks, with advance notice of the consultation to be given to City, Town & Community Councils.

The Community Council is keen to see development within the community, in a way that both maintains the beauty of our environment and is measured and appropriate. We want our built infrastructure to be a living, organic entity and we are always keen to see new faces (especially young families) enjoying the benefits of where we live. We do this by playing as full a part as possible in consultations, and by publishing our deliberations (in both English and Welsh) in our minutes, on the Community Council website. Community Council meetings are open to the public and are held on the first Monday of every month (excepting August). You can also join the meetings online (with audio and / or video). Details of how to do this are on the website and on each month's agenda, which is displayed on the Village Hall notice board about a week before each meeting.

You can also find out more by visiting Planning at www.Denbighshire.gov.uk.

Finally, a very merry Christmas to all our readers and a fruitful and prosperous New Year!

Tim Baker, Chair

Cyflwyno band eang cyflym iawn

Mae'r gwaith o osod band eang ffibr cyflym iawn i eiddo drwy'r pentref yn parhau. Mae llawer o dai wedi'u cysylltu'n barod, ac mae Openreach yn dal i weithio yn yr ardal (ond bu ambell i sî bod y gwaith adnewyddu ffordd wedi arafu pethau braidd).

Pan fydd y ffibr wedi'i osod i'ch tŷ chi, bydd yn cael ei derfynu mewn blwch sy'n edrych fel hyn.

Ar ôl i chi gael y blwch, byddwch yn gallu cysylltu â'ch darparwr rhyngwrdd ac archebu'r gwasanaeth. Mae'r rhan fwyaf yn cynnig ystod cyflymder o 100 MB/s i 900 MB/s. Fe gawsom ni gôntract 300 MB/s am lai nag yr oeddem yn ei dalu o'r blaen.

Pan fyddwch yn archebu, bydd angen i chi ofyn am amser i Openreach redeg ffibr o'r blwch llwyd (yn y llun) i'ch tŷ. Yn fwyaf tebyg, byddant yn drilio trwy'ch wal i wneud hyn, ac yn gosod blwch sy'n edrych fel hyn:



Super Fast Broadband Roll Out

The installation of ultra-fast fibre to property broadband has been continuing throughout the village. Many houses are already connected, and Openreach is still working in the area (although we've heard suggestions that the re-surfacing works has slowed them down).

Once the fibre has been run to your property it will be terminated in a box that looks like this.



When you have that, you can contact your internet provider and order the service. Most offer a range of speeds from 100 MB/s to 900 MB/s. We were able to get a 300 MB/s contract for less than we had been paying before.

When you place your order, you'll need to book a time for Openreach to run fibre from the grey box (pictured) into your house. Most likely they will drill through your wall to do this. They'll install a box that looks like this:

Mae angen cysylltu hwn â chyflenwad pŵer. I'r blwch hwn mae eich llwybrydd wifi yn plygio, ond mae'n debyg y bydd eich darparwr rhyngwrdd yn anfon un newydd atoch pan fyddwch chi'n uwchraddio i ffibr llawn.

Gallwch uwchraddio p'un a wnaethoch gofrestru ar gyfer taleb ai peidio fel rhan o'n hymgyrch y llynedd. Os wnaethoch chi gofrestru, unwaith y byddwch wedi uwchraddio dylech gael e-bost yn gofyn i chi gadarnhau eich bod wedi gwneud hynny, er mwyn i Openreach allu 'adbrynu' eich taleb (sy'n caniatáu iddynt adennill y gost gan y llywodraeth).

Am ryw reswm, er fy mod wedi cael uwchraddiad, cefais e-bost hefyd gan Openreach yn dweud nad oeddent bellach yn gallu gosod band eang ffibr yn Llanbedr. Na, does gen i ddim syniad pam chwaith!

Diolch i bawb a gefnogodd ein hymgyrch i ddod â band eang cyflym iawn i'r pentref. Rydym mor falch ein bod wedi llwyddo. Bellach mae gennym y seilwaith digidol i gefnogi dysgu, gweithio gartref, busnesau, chwaraewyr, ffrydio a mwy am flynyddoedd i ddod. Mwynhewch!

Y Cynghorydd Ian Lloyd Williams

This needs to be attached to a power supply. Your wifi router plugs into this box (your internet provider will likely send you a new one when you upgrade to full fibre).

You can upgrade whether or not you registered for a voucher as part of our campaign last year. If you did register, once you've upgraded you should get an email asking you to confirm that you have done so, this is so that Openreach can 'redeem' your voucher (which allows it to reclaim the cost from the government).

For some reason, despite having upgraded, I also got an email from Openreach saying that they were now unable to install fibre broadband in Llanbedr. No, I have no clue why either!

Thank you to everybody who supported our campaign to bring superfast broadband to the village. We are so pleased to have succeeded, and now have the digital infrastructure to support learning, home working, businesses, gamers, streaming and more for years to come. Enjoy!

Councillor Ian Lloyd Williams

Gwella'r amgylchedd a bio-amrywiaeth

Diffiniad: "Mae bioamrywiaeth yn hanfodol ar gyfer y prosesau sy'n cynnal bywyd ar y ddaear gan gynnwys bodau dynol".

Gorchwyl y Cyngor Cymuned yw rhoi prawf ymarferol o hyn drwy greu amgylchedd sy'n dangos bod trigolion Llanbedr yn poeni'n fawr am ble maent yn byw.

Dechreuodd y gwaith sawl blwyddyn yn ôl gyda gardd Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) ym Maes Derwyn. Yna daeth yr Ardd Lechi, a'r Eglwys yng Nghymru, yr AHNE a'r Cyngor Cymuned yn adnewyddu mynwent Hen Eglwys San Pedr. Yn ddiweddarach, rydym wedi cwblhau gwaith wrth y Goeden Heddych, rydym yn gwella'r mannau gwyrdd y naill ochr i'r A494 o'r arosfan bws hyd at gornel yr Efail, ac eleni rydym wedi creu gwelyau blodau newydd o flaen Maes Derwyn. Ac ni ddylid anghofio'r gwaith a wnaed gan y Tad Huw a'i dîm o wirfoddolwyr o gwmpas yr Eglwys na gwaith Mrs Parkinson uwch droad Tan yr Unto.

Mae dau gorff cadwraeth wedi barnu bod y prosiectau'n llwyddiannus. Yn 2022 enillodd Cyngor Cymuned Llanbedr Wobr Bionet ar gyfer datblygiad Mannau Gwyrdd Cyngor Cymuned yng Ngogledd Ddwyrain Cymru a dim ond yn ddiweddar mae'r pentref cyfan wedi'i ddynodi'n Statws Cyfeillgar i Wenyn.

Our environment and biodiversity

Definition: "biodiversity is essential for the processes that support all life on earth including humans".

The Community Council's practical application of this is that we are trying to create an environment that demonstrates that the residents of Llanbedr really care about where they live.

The work started several years ago with the Denbighshire County Council (DCC) garden in Maes Derwyn, followed by the Slate Garden and then the Church in Wales, AONB, and Community Council's refurbishment of Old St Peter's Churchyard. More recently we've completed the work at the Peace Tree, we are improving the green spaces either side of the A494 from the bus stop down to the Smithy corner and, this year, have created the new flowerbeds in front of Maes Derwyn. We must also mention the work undertaken by Tad Huw and his team of helpers at St Peter's and that of Mrs Parkinson on the top Tan y Unto bend.

The projects have been judged as successful by two conservation bodies. In 2022 the Llanbedr Community Council-won the Bionet award for Community Council Green Space development in North East Wales and just recently we have been awarded Bee Friendly Status for the whole of Llanbedr village.

Mae hyn yn rhoi boddhad mawr i ni, ond mae llawer mwy i'w wneud. Mewn ymgais i roi croeso iawn i'r Gwanwyn i'r pentref, mae 80kg o fylbiau cennin Pedr a 1,000 o fylbiau crocws wedi'u plannu yn y man gwyrdd o flaen Maes Derwyn, a bydd 60kg arall o fylbiau cennin Pedr yn cael eu plannu rhwng y coed derw ar yr A494.

Mae angen gwneud rhywfaint o waith o flaen Maes Famau o hyd, felly oes 'na wirfoddolwyr fyddai'n barod i wneud rhywbeth i sirioli'r ardal yma? Mae gan y Cyngor Cymuned Gronfa Wella i helpu i dalu am brosiect o'r fath ac efallai y bydd Clwyd Alyn hefyd yn gallu darparu rhywfaint o arian.

*Y Cyngorydd Lyn Evans
Symudol 07523 321985*

This is very satisfying but there is still a lot more to be done. In an attempt to welcome spring into the village, 80kgs of daffodil bulbs and 1,000 crocus bulbs have been planted in the green space to the front of Maes Derwyn, a further 60kgs of daffodil bulbs will be planted between the oak trees on the A494.

The frontage to Maes Famau needs some work - are there any volunteers willing to brighten the space? The Community Council has an Improvement Fund to help pay for such a project and Clwyd Alyn may also be able to provide some funding.

*Councillor Lyn Evans
Mobile 07523 321985*



I ddod yn 2024 – Gornest Gerddi Llanbedr

Y flwyddyn nesaf bydd y Cyngor Cymuned yn cynnal cystadleuaeth ar gyfer holl erddi'r ward.

Mae yna dri chategori:

1. Gardd ar gyfer teulu – gardd a lle chwarae gyda digon o le i deulu.
2. Yr Ardd ffrynt neu gefn daclusaf.
3. Yr Ardd orau ar gyfer bywyd gwyllt.

Bydd gwobrau o £75, £50 a £25, ac fe welwch yr holl fanylion yn y cylchlythyr nesaf. Rhowch gynnig ar drio curo'ch cymdogion!

Ni fyddai'r prosiectau hyn yn bosib heb gymorth llawer o wirfoddolwyr, felly diolch i Ray Molenyeux, Gwyn Williams, Guy Alford, Dave Ritchie, Neill Anderson, Jonathan Latham, Ian a Sue Stull, John a Helen Lukey, Huw Jones ac yn arbennig Caroline Duckworth. Byddwn ar goll heb ei chyngor hi!

Y Cyngorydd Lyn Evans



Coming in 2024 - Llanbedr Garden Competition

Next year the Community Council is running a garden competition for everyone in the ward.

There are to be three categories:

1. Family Gardens-family space with a garden and play area.
2. Best Kept Front/Rear Garden.
3. Most Wildlife Friendly.

Prizes will be in the order of £75, £50, £25. Full details will be in the next newsletter, have a go at beating your neighbours!

None of these projects would be possible without a lot of volunteers giving their time: thanks to Ray Molenyeux, Gwyn Williams, Guy Alford, Dave Ritchie, Neill Anderson, Jonathan Latham, Ian and Sue Stull, John and Helen Lukey, Huw Jones and especially Caroline Duckworth whose advice makes everything work!

Councillor Lyn Evans



Diweddariad ynglŷn â Hen Eglwys San Pedr

Mae tîm o wirfoddolwyr wedi cwblhau 'tacluso diwedd tymor' o gwmpas yr hen eglwys – torri, tocio a chlirio chwyn ayb.



Old St Peter's update

A team of volunteers has completed an 'end season' tidy up at the old church. This included mowing, pruning and clearing the weeds.



Arwydd newydd Croeso i Lanbedr
wrth ymyl y Goeden Heddwch

New Llanbedr welcome
sign at the Peace Tree

Efallai eich bod wedi sylwi ar yr arwydd gwybodaeth newydd sydd wedi'i osod yn ddiweddar wrth ymyl y Goeden Heddwch ar gornel yr A494 a Than yr Eglwys. Mae'r arwydd yn cynnwys rhywfaint o hanes y pentref ac yn rhoi gwybodaeth am fannau diddorol lleol yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol.

Ariannwyd yr arwydd gan Gronfa Gymunedol Arnold Clark – diolch iddynt am eu cyfraniad caredig. Diolch yn fawr hefyd i bawb a helpodd gyda lluniau a gwybodaeth.



Ysgol Llanbedr – newyddion
diweddaraf gan y Pennaeth newydd

Ysgol Llanbedr – update
from the new head

Diolch i holl gymuned Llanbedr am y croeso cynnes. Rwy'n mwynhau dod i adnabod y plant – maen nhw'n glod i'w teuluoedd.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio â'm cyd-athrawon yn Ysgol Llanbedr a pharhau gyda gwaith rhagorol Mrs Van Look.

Rwy'n athrawes yn Sir Ddinbych ers 2004, ac rwy'n mwynhau gweithio yn yr ardal hardd yma o'r sir. Bûm yn bennaeth yn Ysgol Bodfari o 2011 i 2023 ac rwy'n credu'n gryf dros ddiogelu ysgolion bach. Mae Ysgol Llanbedr yn berl ym mynwes Dyffryn Clwyd ac mae'n anrhydedd i mi fod yn rhan o'r tîm.

Dyma fydd ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:

- Hyrwyddo gwerthoedd ac ethos crefyddol yr ysgol ac atgyfnerthu'r cysylltiadau ag Eglwys San Pedr a'r Esgobaeth
- Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig drwy'r ysgol gyfan
- Hyrwyddo lles ar draws yr ysgol a datblygu dysgu yn yr awyr agored ymhellach
- Datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ymhellach ar draws y cwricwlwm newydd

Rwy'n aros yn eiddgar i'ch cyfarfod mewn digwyddiadau yn y dyfodol.

Dymuniadau gorau
Susan Dick

Thank you to the Llanbedr community for their warm welcome. I'm enjoying getting to know the children who are a credit to their families.

I'm looking forward to working with colleagues in Ysgol Llanbedr to continue the excellent work done by Mrs Van Look.

I've worked as a teacher in Denbighshire since 2004 and enjoy working in this beautiful county. I was headteacher of Ysgol Bodfari from 2011 to 2023 and am a keen advocate for small schools. Ysgol Llanbedr is a little gem in the heart of the Vale of Clwyd and I feel privileged to be part of the team.

Our priorities for this year are to:

- Promote the religious values and ethos of the school and further strengthen links with St Peter's Church and the Diocese
- Promote the Welsh language and culture across the whole school
- Promote wellbeing across the school and to further develop outdoor learning
- Further develop literacy, numeracy and digital competency skills across the new curriculum

I look forward to meeting you at future events.

Warmest Wishes
Susan Dick

Newyddion Eglwys San Pedr

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un gyffrous iawn yn Eglwys San Pedr, Llanbedr DC. Buom ar gau am ychydig o fisoedd yn ystod y Gwanwyn oherwydd i ni ddechrau gwaith adeiladu, - sydd wedi bod ar y gweill ers 10 mlynedd!

Roedd yn wych gweld hyn yn dwyn ffrwyth o'r diwedd ac rydym mor ddiolchgar i'r rhai sydd wedi ein cefnogi i wneud i hyn ddigwydd, yn ariannol a thrwy gefnogi ein cais am grant. Fe wnaeth yr Eglwys ail-agor ym mis Gorffennaf gyda chyfleusterau newydd gan gynnwys toiled a chegin fach ond y newid mwyaf oedd lefelu'r llawr a chael gwared ar y rhan fwyaf o'r seddau. Mae hyn wedi creu gofod llawer ysgafnach ac agored sy'n ein galluogi i werthfawrogi'r gwydr lliw gwych yn fwy byth.

St Peter's News

It's been an exciting time in St Peter's Church, Llanbedr DC over the past year. We were closed for a couple of months in the spring as we began building works which have been 10 years in the making!

It was great to see this finally come to fruition and we're so grateful to those who have supported us in making this happen, both financially and in support in our grant application. The Church re-opened in July with new facilities including a toilet and kitchenette but the biggest change was the levelling of the floor and the removal of most of the pews. This has led to a much lighter and open space that allows the fantastic stained glass to be appreciated all the more.

But we have not limited to just the building, in September we heard

Ond nid yr adeiladu yw'r unig beth. Ym mis Medi, fe gawsom wybod ein bod wedi ennill gwobr Eco-Eglwys 1af y wlad, - dipyn o gamp, sy'n brawf o'r ymrwymiad i ofalu am yr amgylchedd yr ydym yn ei gysidro'n rhan o'n dyletswydd Gristnogol yn yr Eglwys. Daw'r wobwr hon nid yn unig am y gwaith rydym wedi'i wneud yn y fynwent yn creu hafan i fywyd gwyllt a phobl fel ei gilydd, ond hefyd am ddysgu ac annog eraill i weithredu yn eu bywydau eu hunain i frwydro yn erbyn yr argyfwng hinsawdd.

Rydym hefyd ar restr fer Gwobr yr Ymddiriedolaeth Eglwys Cenedlaethol, 'Ar Agor i Ymwelwyr'. Mae'r seremoni wobrwyo yn Llundain ar Dachwedd 6ed, felly erbyn i chi ddarllen hwn mae'n ddigon posib y byddwn wedi ennill! Mae hyn yn rhannol am ein gwaith lletygarwch, bod yn agored gyda phaned a chacen ar gael i unrhyw un sy'n galw heibio, a'r lleoedd sydd ar gael y tu mewn a'r tu allan i chi eistedd, ymlacio a gorffwys yn llonyddwch a thawelwch y man cysegredig hwn.

Yr her sydd gennym rŵan ar gyfer y gymuned yw beth hoffech chi ei weld yn digwydd yn yr eglwys? Mae gennym wasanaethau bob bore Sul (Ewcharist am 10.30), y Cymun Celtaidd nos Fawrth am 6, y Cymun Bendigaidd ar fore Mercher ac Iau am 9.30, Cantorion Dyffryn Clwyd (côr cymunedol i bawb) nos Iau am 6.45, a Grŵp Ieuentid misol Go Wild Teens (4ydd nos Wener o 7.00 tan 8.30). Croeso i chi ddod â'ch syniadau, boed yn grwpiau allanol yn rhentu'r gofod neu rywbeth y ar

that we had achieved the 1st Eco-Church award in the country, a fantastic achievement and shows our commitment to caring for the environment which in the church we see as our Christian duty. This award is not just for the work we've done in the churchyard creating a haven for wildlife and humans alike, but also on teaching and encouraging others to take action in their own lives to combat the climate emergency.



We've also been shortlisted for the National Churches Trust Award, 'Open for Visitors', the award ceremony is in London on November 6th, so by the time you read this we may well have won! This is party for our work on hospitality, being open with good coffee and cakes available for anyone who drops by and the spaces available inside and out for you to sit, relax and rest in the quiet tranquillity and peace of this sacred space.

The challenge we now have for the community is what would they like to see happen in the church? We have services every Sunday (10.30am Eucharist), Tuesday (6pm Celtic Eucharist), Wednesday (9.30am English Eucharist) & Thursday (9.30am



gallwn ei drefnu ar gyfer y gymuned: cyngherddau, paned a sgwrs, grwpiau ar gyfer plant bach neu unrhyw beth arall y gallwch chi feddwl amdano. Eich Eglwys chi ydi hi ac rydyn am i chi ei defnyddio. Anfonwch eich syniadau at y Tad Huw (huwbryant@cinw.org.uk 07779655949).

Galwch heibio unrhyw adeg am baned neu gacen, i oleuo kannwyll mewn gweddi, neu'n syml i fwynhau'r lle hyfryd hwn.

Tad Huw

'Stop wasg; Llongyfarchiadau i Eglwys San Pedr ar ennill Gwobr 'Cymru Agored i Ymwelwyr' yng Ngwobrau Ymddiriedolaeth Eglwys Cenedlaethol Llundain yn ddiweddar.'

Welsh Eucharist), Dyffryn Clwyd Singers (community choir open to all 6.45pm on Thursdays), Monthly Teen's Go Wild Youth Group (4th Friday, 7pm-8.30pm). We're open to ideas, whether it's outside groups renting the space or something we can lay on for the community, from concerts, to coffee and a chat, toddler groups or anything else you can think of. It's your Church and we want you to make use of it. Contact Tad Huw if you have any ideas (huwbryant@cinw.org.uk 07779655949).

Do drop in anytime you're passing for a coffee, cake, light a candle in prayer or just enjoy this beautiful space.

Tad Huw

'Stop press; Congratulations to St Peters Church for winning the 'Wales Open for Visitors' Award at the National Churches Trust Awards in London recently.'

Pwyllgor Cymdeithasol Diweddariad Digwyddiadau

Cyngerdd Ysgol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon

Dydd Llun Rhagfyr 11eg

Bydd dau ddangosiad

1.30pm - 3pm a 5pm - 6.30pm

Cysylltwch â'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am docynnau.

Cinio Nadolig

Dydd Mercher 22 Rhagfyr am hanner dydd

Cynhelir yn y Neuadd Bentref gyda Geraint Woolford yn perfformio. Mae tocynnau yn costio £8 ac yn cynnwys 2 gwr. Mae croeso i chi ddod â'ch diodydd eich hun. Cysylltwch â Gwenda i archebu tocynnau 07724196089.

Cinio Dydd Gwyl Dewi

Dydd Gwener Mawrth 1af

Bydd pryd 2 gwr yn cael ei weini yn y Neuadd Bentref gydag adloniant yn cael ei ddarparu. Manylion pellach i ddilyn maes o law

Social Committee Upcoming Events

PTA School Concert

Monday 11th December

There will be two showings 1.30pm - 3pm and 5pm - 6.30pm
Contact the PTA for tickets.

Christmas Lunch

Wednesday 22nd December at 12 noon

Held at the Village Hall with Geraint Woolford performing. Tickets cost £8 and include 2 courses. You are welcome to bring your own drinks. Contact Gwenda to book tickets 07724196089.

St David's Day Lunch

Friday 1st March

A 2 course meal will be served at the Village Hall with entertainment provided. Further details to follow in due course.



Pwy ydi'ch postmon chi?

Er mod i'n sgwrsio gydag Eric y Postmon ar garreg y drws sawl gwaith yr wythnos, doeddwn i ddim yn gwybod llawer amdano fo. Felly es ati i wneud yn iawn am hyn yn ddiweddar trwy fynd am beint neu ddwy efo fo a'i gydweithiwr Jeff yn y Plu! Mae pentref Llanbedr wedi'i rannu'n ddau ar gyfer rowndiau post. Jeff sy'n gwneud yr A494 hyd at y Griffin ac i'r chwith i lawr y B5429 ac Eric sy'n gwneud y tai heibio'r Griffin gan gynnwys Clwyd Gate, Llanfair DC a Phlas Bathafarn.

Ganwyd Jeff yn Ysbyty Rhuthun ym 1963. Roedd ei dad, Harry Roberts yn enwog am chwarae pêl droed dros Ruthun, a'i fam yn gweithio ar y ffôn uwchben y Swyddfa Bost ar Sgwâr San Pedr. Cigydd yn Crown House oedd Jeff i ddechrau, cyn mynd i weithio i'r Post Brenhinol, ac mae'n dal i gofio mai ar ddydd Gwener y cafodd ei gyflog cyntaf, sef £39.12, a hynny mewn arian parod!

Dechreuodd weithio i'r Post yn Rhuthun ym mis Tachwedd 1981. Roedd o a'i gydweithwyr yn gwneud Rhuthun i gyd, felly roedd rhaid cael gwybodaeth drylwyr o'r dref. Erbyn mis Chwefror '82 roedd o di cael ei rownd wledig gyntaf yng Ngellifor, cyn symud ymlaen i rownd Llanbedr. Ac yma mae o o hyd, 28 mlynedd yn ddiweddarach! Mae Jeff yn mwynhau chwarae golff, garddio ac edrych ar ôl ei wyrion.

Ganwyd Eric yn ardal Bootle, Lerpwl,

Who Is Your Local 'Postie'?

I chat with Eric, our 'Postie' on my doorstep several times a week but realised I don't actually know much about him, so I set about putting that right recently by meeting him and his colleague Jeff for a couple of beers at the Feathers! Llanbedr is split into two for postal rounds. The A494 up to the Griffin and left down the B5429 is covered by Jeff and everything past the Griffin including Clwyd Gate, Llanfair DC and Bathafarn Hall is covered by Eric.

Jeff was born at Ruthin Hospital in 1963. His Dad, Harry Roberts was known for playing football for Ruthin. Mum was a telephonist upstairs at the Post Office on St Peters Square. Jeff was a butcher at Crown House before joining the PO and still remembers his first wage was £39.12 in cash on a Friday!

He started with the PO in Ruthin in Nov 1981, covering all parts of Ruthin with colleagues so knowledge was key. By Feb '82 he had his 1st rural round at Gellifor before moving in 1995 to the round that covers Llanbedr and has been with us ever since – 28 years! Jeff plays golf, enjoys gardening and looking after his grandchildren!

Eric was born in the Bootle area of Liverpool and moved to Ruthin when 8 years old in 1968. His first job was in the jewellery trade at ECCO Jewellers on Lon Parcwr, aged 16. He plays 8 a side football and you may catch

gan symud i fyw i Ruthun ym 1968 pan oedd o'n 8 oed. Ei swydd gyntaf oedd gyda chwmni gemwaith ECCO Jewellers ar Lôn Parcwr, yn 16 oed. Mae'n chwarae pêl-droed 8 bob ochr ac efallai y gwelwch chi o'n mynd o gwmpas ar ei feic! Mae Eric wedi gwneud dau gyfnod gyda'r Post Brenhinol mewn gwirionedd. O 1979 i 1989, bu'n dosbarthu llythyrau o gwmpas tref Rhuthun. Gadawodd i fod yn yrrwr HGV Dosbarth 1 ond sylweddolodd yn gyflym iawn fod yn well ganddo weithio i'r Post! Bu am un mlynedd ar ddeg yn trio dod yn ôl, cyn llwyddo o'r diwedd yn 2000 pan gafodd waith llanw dros ei gydweithwyr oedd ar rowndiau gwledig. Mae'n cofio cymryd yr awenau tua mis Ebrill 2017 oddi wrth Fred, sef postmon Llanbedr ar y pryd, ac mae gyda ni ers hynny.

Mae'r ddau'n adnabod y gymuned yn dda ac yn gwybod yn reddfol pan mae rhywbeth o'i le: drws ar agor pan ddylai fod ynghau, llythyrau'n dal yn y blwch, llefrith ar garreg y drws ac ati. Unwaith fe ddaeth Jeff ar draws dyn dieithr yn gorwedd wrth y ffordd i Blas Llanbedr. Gan nad oedd yn gallu ei ddeffro, aeth i chwilio am help gan Reolwr y Plas. Pan ddaethant yn ôl, roedd y man lle bu'r dyn yn gorwedd yn dal yn gynnes, ond doedd na ddim golwg ohono!

Tydi swydd postmon ddim yn swydd arferol. Un diwrnod, gallwch fod yn hysbysu'r heddlu am rywun yn gyrru cerbyd moethus ond amheus yn ara' deg o amgylch y dref am 4 y bore. Dro arall, gallwch fod yn helpu trigolion Glasdir â'u tai dan ddŵr. A bu

him out and about cycling! Eric has actually has done two stints with the PO. The first was 1979 – 1989, based in Ruthin delivering mail in the town. He left to become a Class 1 HGV driver but pretty quickly realised that he preferred the PO! It took him 11 years to get 'back in' but succeeded in 2000 and became the 'relief' for other colleagues rural rounds. He remembers taking over from Fred, who was the Llanbedr Postie at the time, around April 2017 and he has been with us since.

They both know their community well and can sense when things are wrong; finding a door open when it shouldn't be, mail left in the letterbox, milk on the doorstep etc. Jeff once had an incident where he found a man he didn't recognise, collapsed on the road up to Llanbedr Hall. Unable to wake him he went and raised the alarm with the Hall Manager. When they returned, the ground where he had been was still warm but no sign of the man!

The job can be far from mundane for both of them; from alerting police to suspicious high end vehicles cruising around the town at 4am to helping residents in flooded Glasdir and one particular incident in St Peters Square a few years ago where Eric heard horrific screams one very early Saturday morning and turned around to see a youngster in flames after they apparently tried to set a car alight with petrol. Together with colleagues he helped to extinguish the flames and the individual eventually recovered in hospital. Eric shudders to think if

digwyddiad penodol yn Sgwâr San Pedr ychydig flynyddoedd yn ôl lle clywodd Eric sgrechfeydd erchyll yn gynnwys iawn un bore Sadwrn, cyn gweld llanc â'i ddillad ar dân. Mae'n debyg i griw o lanciau ddefnyddio petrol i roi car ar dân. Fe wnaeth Eric a'r postmyn eraill helpu i ddiffodd y fflamau, ac ymhen hir a hwyr, fe wellodd yr unigolyn yn yr ysbyty. Mae meddwl beth petasai hyn fod wedi digwydd ar fore Sul pan nad oes neb o gwmpas i helpu'n codi crud ar Eric. Gallasai'r canlyniadau fod wedi bod yn wahanol iawn.

Yn yr hen ddyddiau byddent yn cychwyn am 3.30 yb ond y dyddiau hyn mae diwrnod arferol i'r ddau (gan gynnwys dydd Sadwrn!) yn dechrau am 5.30 yb yn Swyddfa Ddidoli Dinbych (gan i bopeth symud yno o Ruthun ym mis Ionawr eleni). Bydd y llythyrau a'r parseli cyntaf wedi cyrraedd yn barod tua 4.45 yb a disgwylir yr ail lwyth am 7. Unwaith y byddant wedi didoli'r post gallant wedyn ddechrau eu rowndiau, fel arfer tua 8.30 a gorffen tua 1.30 y prynhawn. Ac yn ystod y prynhawn, bydd gwirfoddolwyr ar oriau ychwanegol yn casglu'r post. Fe wnes i holi os oedd yna adegau prysur yn ystod yr wythnos. Atebodd y ddau bod pethau'n prysuro at ddiwedd pob wythnos, bod y Nadolig yn ofnadwy o brysur, a'i fod ar fin mynd yn brysurach fyth wrth i gynllun newydd y Post Brenhinol o gasglu parseli o gartrefi gael ei gyflwyno!

Wedyn dyma drafod gweithio'n ystod y Cyfnodau Clo. Fe wnaethant ddisgrifio mor rhyfedd o dawel oedd hi ym mhobman, a hwythau'n gorfod gwisgo

that had been a Sunday morning there would have been no-one around to help and it could have ended very differently.

In the old days they would start at 3.30am but these days a typical day for them both (including Saturday!) is to start at 5.30am at Denbigh Sorting Office (where delivery was moved from Ruthin in January this year) The first delivery has already arrived at around 4.45am and the second due in at 7am. Once they have sorted the mail they can then start their rounds, usually about 8.30 and finishing at about 1.30pm. Collections are then done in the afternoon by volunteers on overtime.

I asked about busy periods in the week, they both said towards the end of the week was busier and that Christmas is horrendously busy and set to get busier as the new scheme for the PO to collect parcels from home addresses has been introduced!

We talked about working through Covid Lockdowns. They described how eerily quiet it was everywhere and how they had to wear both masks and gloves. I asked them about the time when our deliveries were disrupted during the second lockdown. They recalled the 'teapot incident' in 2020 during the busy time of late Nov/early Dec when all but two of the team were notified, one by one, by the local Covid Centre and told they had come into contact with someone with Covid and to go straight home for 10 days quarantine! Turns out a member of

masgiau a menig. Fe holais am yr adeg pan amharwyd ar y dosbarthu yn ystod yr ail Gyfnod Clo. Fe wnaethant adrodd 'hanes y tebot' yn 2020 a ddigwyddodd ar adeg brysur ar ddiwedd mis Tachwedd/dechrau Rhagfyr. Cafodd pob un o'r tîm ac eithrio dau eu hysbysu fesul un gan y Ganolfan Cofid leol eu bod wedi dod i gysylltiad â rhywun oedd â Chofid.

Roedd yn rhaid iddyn nhw fynd yn syth adref am 10 diwrnod cwarantîn! Yn ôl pob tebyg, fe wnaeth aelod o staff ddefnyddio'r tebot i wneud paned ben bore a'i osod ar y bwrdd cyn mynd yn ôl i fyny'r grisiau; roedd pob un ohonyn nhw wedi tollti te o'r pot, ond roedd y sawl wnaeth baratoi'r te wedi cael Cofid, yn hollol ddiarwybod iddo ar y pryd. Cafodd staff eu drafftio i mewn o Gaer a mannau eraill cyn belled ag Ynys Môn i helpu ond roedd hi'n anrhefn llwyr am gyfnod. Yn eironig, wnaeth dim un o'r rhai fu'n rhaid mynd ar gwarantîn gael Cofid! Gofynnais i'r ddau beth oedd orau am y swydd. Ateb y naill a'r llall oedd y bobl a 'harddwch syfrdanol' cefn gwlad wrth iddyn nhw wneud eu rowndiau (ar ddiwrnod clir gall Jeff weld Eryri). Cytunodd Eric â Jeff pan ddywedodd 'nid cwsmeriaid ydyn nhw, maen nhw wedi dod yn ffrindiau dros y blynyddoedd'.

Mae Eric a Jeff yn dymuno Nadolig Llawn i'w ffrindiau a'u holl gwsmeriaid!

Y Cyngorydd Jackie Holder

staff made the usual early morning pot of tea and placed it on the table before returning upstairs; they all poured tea from the pot and it was the tea making member of staff who had covid but didn't know at the time. Staff were drafted in from Chester and elsewhere as far as Anglesey to help and it was all chaotic for a time. The irony was not one quarantined person went on to develop Covid!

I asked them both about what were the best aspects of their jobs. Both said the people and the 'breathtaking beauty' of their rounds (on a clear day Jeff can see Eryri/Snowdonia). Eric agreed with Jeff when he said 'they're not customers, they're become friends over the years'

Eric and Jeff wish all their friends and customers a very Happy Christmas!

Jackie Holder, Vice Chair





GRIFFIN **INN**

LLANBEDR DC, RUTHIN

01824 705542

	BAR	FOOD
SATURDAY 23RD DEC	12:00 – 10.30PM	12 – 3PM & 5PM – 8PM
SUNDAY 24TH DEC	12:00 – 8PM	12 – 3PM
MONDAY 25TH DEC	CLOSED	CLOSED
TUESDAY 26TH DEC	CLOSED	CLOSED
WEDNESDAY 27TH DEC	12:00 – 9PM	12 – 3PM & 5PM – 8PM
THURSDAY 28TH DEC	12:00 – 9PM	12 – 3PM & 5PM – 8PM
FRIDAY 29TH DEC	12:00 – 10.30PM	12 – 3PM & 5PM – 8PM
SATURDAY 30TH DEC	12:00 – 10.30PM	12 – 3PM & 5PM – 8PM
SUNDAY 31ST DEC	12:00 – LATE	12 – 3PM & 5PM – 7PM
MONDAY 1ST JAN	CLOSED	CLOSED
2ND - 9TH JAN	CLOSED	CLOSED